



PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN, 22 TACHWEDD 2021 AM 5.00PM

PRESENNOL:

Cynghorydd M.P. James – Cadeirydd
Cynghorydd G. Kirby – Dirprwy Gadeirydd

Cynghorwyr:

Cynghorwyr: C. Andrews, W. David, D.T. Davies, A. Hussey, L. Jeremiah, Mrs M.E. Sargent,
C. Mann a W. Williams.

Ynghyd â:

L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), M. Afzal
(Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau'r
Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Oliver, C. Thomas, C.
Forehead, A. Farina-Childs a P. J. Bevan.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganwyd buddiant personol gan **bob Aelod** mewn cysylltiad ag **Eitem Rhif 4 ar yr Agenda – Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23**, am ei bod yn cyfeirio at gydnabyddiaeth yr Aelodau eu hunain. Oherwydd bod y buddiant yn bersonol yn unig, ni fyddai hyn yn atal yr Aelodau rhag aros yn y cyfarfod a chyfrannu yn yr eitem hon.

3. CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD AR 19 TACHWEDD 2020

PENDERFYNWYD i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

4. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022/23

Datganwyd buddiant personol gan **bob Aelod** mewn cysylltiad â'r eitem hon, am ei bod yn cyfeirio at gydnabyddiaeth yr Aelodau eu hunain. Oherwydd bod y buddiant yn bersonol yn unig, ni fyddai hyn yn atal yr Aelodau rhag aros yn y cyfarfod a chyfrannu yn yr eitem hon.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am safbwyntiau'r Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23. Cyflwynir y sylwadau i'r Panel cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymateb ar 26 Tachwedd 2021.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at y crynodeb o'r dyfarniadau newydd a oedd wedi'u diweddarau a gyflwynwyd yn Atodiad 5 i'r adroddiad drafft a thynnwyd sylw at y cynnig i gynyddu'r Cyflog Sylfaenol i Aelodau Prif Gynghorau o £14,368 i £16,800 ynghyd â chynnydd i uwch daliadau cyflog fel y'u nodir ym mharagraff 5.6.2 yr adroddiad. Roedd yr adroddiad drafft yn cydnabod nad oedd taliadau i aelodau etholedig 22 o'r prif gynghorau wedi cyd-fynd â'r cymharydd gwreiddiol a ddefnyddiwyd i bennu'r cyflog sylfaenol, nac unrhyw gymhariaeth arall gyda'r sector cyhoeddus ac felly penderfynodd y Panel ei fod yn gyfle priodol i unioni'r sefyllfa hon ac i adfer y cyswllt i enillion cyfartalog Cymru fel y'i nodir yn yr adroddiad drafft. Nodwyd y cyhoeddir dyfarniadau terfynol y Panel ar gyfer 2022/23 ym mis Chwefror 2022 ac y bydd yr Aelodau yn cael eu hysbysu'n llawn ynghylch yr adroddiad terfynol ar ôl ei gyhoeddi.

Holodd Aelod ynghylch y ddarpariaeth i gefnogi Aelodau fel y nodir yn yr adroddiad drafft, sy'n datgan y rhoddir cymaint o gefnogaeth ag sydd angen i aelodau etholedig i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Yn benodol, roedd yr Aelod o'r farn y byddai darparu ffôn symudol y Cyngor yn fuddiol ac yn galluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau mewn ffordd fwy effeithiol. Cafwyd trafodaeth gyda'r Aelod yn cefnogi gosod meddalwedd ar eu ffonau personol a fyddai'n caniatáu mynediad at negeseuon e-bost yn hytrach na darparu ffôn ar wahân gan y Cyngor. Er y nodwyd argaeledd y feddalwedd, mae'n bosibl na fydd rhai Aelodau yn dymuno cymysgu busnes personol a busnes y Cyngor ar eu ffonau. Yn dilyn trafodaeth, derbyniodd y Pwyllgor gynnig y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal arolwg barn gyda'r Aelodau i ganfod eu barn ar ddarparu ffôn symudol gan y Cyngor ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Ceisiwyd eglurhad o'r cynnydd canran i'r cyflog sylfaenol. Esboniodd y Swyddog fod y cynnydd i gyflogau ar gyfer y flwyddyn hon, o'i gymharu â'r llynedd, yn sylweddol i'r graddau mai £150 oedd y cynnydd ar gyfer 2020/21 ar y cyflog sylfaenol ac eleni cynigir y bydd y cynnydd yn fwy na £2,000. Esboniwyd mai'r rheswm dros y cynnydd hwn oedd hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth ac annog cynrychiolaeth o bob rhan o'r gymuned. Roedd y Panel o'r farn mai'r Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai oedd yr amser cywir i bwysu'r botwm ailosod.

Croesawodd yr Aelodau y cynnig i gynyddu cyflog yr Aelodau, gan nodi y byddai'n annog mwy o bobl i ddod yn gynghorwyr.

Ceisiodd y Swyddog eglurhad ar yr ymateb a fyddai'n cael ei gyfleu i'r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol a chadarnhaodd yr aelodau y byddent yn cefnogi'r adroddiad drafft.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog:-

Y byddai Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2022/23 sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 ac y bydd yr ymateb hwn yn cael ei gyflwyno gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i Banel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru erbyn 26 Tachwedd 2021.

5. CYNLLUN GWEITHREDU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chytuno ar y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Cyflwynodd y Swyddog yr adroddiad ac

amlinellodd yr ymrwymiadau allweddol ynghyd â'r amserlenni cysylltiedig. Tynnwyd sylw'r Aelodau at benodi Llysgenhadon Amrywiaeth, a chroesawyd hynny.

Ceisiodd Aelod eglurhad ar hyfforddiant ar gyfer Aelodau ac a fyddai mwy o unigolion yn cael eu haseinio i ddarparu hyfforddiant. Cynghorwyd y Pwyllgor fod rhaglen sefydlu yn cael ei chwblhau yn awr a fyddai'n cynnig ystod o hyfforddiant, mewn person ac o bell. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai adroddiad ar y rhaglen sefydlu yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor a'r Cyngor ac y byddai staff y Gwasanaethau Democrataidd ar gael i gefnogi Aelodau presennol a newydd. Nododd yr Aelodau yr ymateb a diolchwyd i Dîm y Gwasanaethau Democrataidd am eu gwaith rhagorol.

Pwysleisiodd y Swyddog fod y rhaglen sefydlu yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd yn dilyn y rhaglen sefydlu ddiwethaf. Byddai'r rhaglen yn cael ei theilwra i gyflawni anghenion newidiol Aelodau Etholedig ac y byddai'n cynnwys sesiwn Orfodol, er enghraifft Sesiwn ar y Cod Ymddygiad a Sesiwn a Argymhellir, er enghraifft Arferion Gweithio Clyfar a Diogel ond y byddai hefyd yn darparu sesiynau gwybodaeth yn seiliedig ar y Cyfadrannau amrywiol a'r gwasanaethau maent yn eu darparu. Mae'r sesiynau hyn wedi'u datblygu oherwydd adborth o'r rhaglen sefydlu ddiwethaf, a bwysleisiodd ddyhead am fwy o wybodaeth ymarferol/sy'n canolbwyntio ar wasanaethau. Byddai'r rhaglen Sefydlu eleni hefyd yn cynnwys cyfeirlyfr electronig a fyddai ar gael i Aelodau ar ffurf copi caled ar gais. Byddai'r cyfeirlyfr electronig yn cynnwys pwyntiau cyswllt allweddol o'r amrywiol gyfadrannau. Cyfeiriodd y Swyddog yr Aelodau hefyd at y wybodaeth helaeth sydd ar gael drwy'r fewnwyd, Porth Aelodau, Tudalennau Gwe Democratiaeth a'r ap Mod.Gov.

Ystyriwyd y gallai Aelodau etholedig newydd elwa o gael cyfeillion/mentoriaid ac y byddai'n ddefnyddiol eu paru gyda Chynghorwyr presennol neu sefydledig. Cadarnhaodd y Swyddog y byddent yn gofyn am farn yr Aelodau drwy holiadur a fyddai'n cael ei ddosbarthu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog:-

Bod y Cynllun Gweithredu Drafft fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cael ei ddwyn ymlaen yn y cyfnod yn arwain at etholiadau 2022 a thu hwnt.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 17 Mawrth 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:50

CADEIRYDD